CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
17 Ebrill 2018, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, C Jones, D Morgan, AD Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn, D Roberts, D ap Rhobert, W Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Pritchard. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb yn cynnwys un aelod newydd Mrs Cerys Jones a PCSO Alison Williams
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng A Wyn - mater 5.1
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 27.03.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru i wneud a symud y plac o Eglwys Llanddyfnan i'r gofeb. Cytunwyd i gynnal gwasanaeth unwaith bydd y plac yn ei le.
4.2	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir am symud yr arwydd at cyfeiriad Llangefni
4.3	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru
4.4	**Lloches Bws** - Mae'r Clerc wedi trefnu cyfarfod gyda R P O Williams i cael pris am sylfaen concrid.
4.5	**Cwynion am cyflwr Lôn Bodffordd - Lôn Llanerchymedd** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.6	**Tregaian - Capel Coch** - twll yn y lôn - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.7	**Parcio wrth ymyl Ysgol Talwrn** - Trafodwyd cwyn am ceir yn parcio ar y gyffordd wrth ymyl ysgol Talwrn. Cynigodd PCSO Williams gwneud "leaflet drop" ar adegau pan fydd rhieni o gwmpas yr ysgol yn gofyn iddynt peidio â pharcio ar y gyffordd.
4.8	**Problemau gyda BT Broadband** - Mae'r Clerc wedi derbyn mwy o cwynion gan Mr M Lax, Cefn Eithaf, Llanddyfnan, hefyd ar rhan Pen y Fan Bellaf, Bryn Seiri a Bryn Ddyfnan. Bydd y Clerc yn trosglwyddo y mater i BT
4.9	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.10	**Ffoes wrth ymyl yr Eglwys, Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
	Llofnod…….Cadeirydd 15.05.18

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C349 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Rhianfa, Llangwyllog - dim gwrthwynebiad. Trafodwyd y mater hwn ar ddiwedd y cyfarfod ar ôl i Cyng A Wyn adael.
5.2	23C280M/VAR/ENF Cais o dan Adran 73A i amrywio amodau 02 archeoleg, 03 tirlunio, 04 goleuadau allanol o benderfyniad apel cyfeirnod APP/L6805/A/17/3175555 (cadw sied amaethyddol, parlwr godro, iard fferm, trac, pwll slyri a seilos) er mwyn caniatau amser ychwanegol i gyflwyno'r manylion yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu
7.1	Capel Gosen £100.00 (Rhent)
7.2	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Baw ci Talwrn - Trafodwyd cwyn am preswylwyr yn llichio bagiau baw ci yn y gwrychoedd. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir. Hefyd, cynigodd PCSO Williams trefnu "leaflet drop" arall i atgoffa pobl ei bod yn torri'r gyfraith. Awgrymodd Cyng D Rees eu bod yn cynnwys rhif ffôn Crimestoppers yn y daflen. Bydd y Clerc hefyd yn gofyn i'r Cyngor Sir am bin arall ar y lamp wrth ymyl y sgwar, Talwrn
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Palmentydd yn Llangwyllog
9.2	Baw ceffyl
9.3	Coed angen ei dorri o gwmpas lamp (rhif 5) wrth ymyl Bodlondeb (hefyd lamp wrth ymyl Hafod y Coed)
	Llofnod…….Cadeirydd 15.05.18